Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# Y DRINDOD DEWI SANT

# Polisi Eiddo Deallusol Myfyrwyr

# Y DRINDOD DEWI SANT

# Polisi Eiddo Deallusol Myfyrwyr

# Rhagymadrodd

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant o'r farn fod creu eiddo deallusol yn bwysig gan fod hynny'n cefnogi nifer o'i hamcanion strategol ac mae'n hanfodol i'r amcanion craidd o greu gwybodaeth, trosglwyddo gwybodaeth, ysgolheictod a dysg. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddatblygu polisïau a gwasanaethau cymorth sy'n creu'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer creu eiddo deallusol a'i drosglwyddo i ddefnydd ymarferol.

Dymuna'r Brifysgol annog manteisio ar Eiddo Deallusol er mwyn:

- Annog a datblygu creadigrwydd ac arloesedd Myfyrwyr
- Annog mentergarwch a chreu busnesau
- Cynorthwyo Myfyrwyr i wneud cyfraniad i ddatblygiad economaidd

Lluniwyd y polisi i gefnogi ymdrech Myfyrwyr, gan gymryd i ystyriaeth adnoddau a ariennir gan arian cyhoeddus sy'n cyfyngu ar y ffyrdd y gellir eu defnyddio i ddibenion busnes.

Dylid gwneud unrhyw ymholiadau am y polisi hwn neu am eiddo deallusol a chyfleoedd masnacheiddio posibl yn gyffredinol, i'r tîm Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch, a fydd yn darparu arweiniad a chymorth i Fyfyrwyr unigol.

# 1 Introduction and defined terms

1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu polisi a rheolau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant mewn perthynas â pherchnogaeth Eiddo Deallusol ("ED") a grëwyd gan Fyfyrwyr y Brifysgol.

1.2 Gellir diffinio Eiddo Deallusol yn fras fel gallu neu wybodaeth, a sut i'w gymhwyso. At ddibenion y polisi hwn, ystyrir yr holl ddeunyddiau a gynhyrchir gan Fyfyrwyr yn rhai a allai greu hawliau eiddo deallusol (HED), fel y nodir yn y tabl isod.

| Math o warchodaeth | Enghraifft o Eiddo Deallusol |
|---|---|
| Hawlfraint (hawl awtomatig) | Llenyddiaeth, Celf, Ffotograffiaeth, Ffilmiau, Cerddoriaeth, Cynnwys y We |
| Patentau | Dyfeisiau a chynnyrch |
| Nod masnach | Cynnyrch, enw, logo, rhigymau hysbysebu |
| Hawliau dylunio (gallant fod wedi'u cofrestru neu heb eu cofrestru) | Siapiau gwrthrychau |

1.3 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl Fyfyrwyr y Drindod Dewi Sant. Mae Myfyriwr yn rhywun sydd wedi cofrestru'n Fyfyriwr Israddedig neu Ôl-raddedig yn y Brifysgol neu sy'n dilyn unrhyw gwrs fel petai'n, fyfyriwr yn cynnwys y rhai sy'n astudio am ddyfarniad y Drindod Dewi Sant mewn sefydliadau partner.

1.4 Mae polisi ar wahân yn berthnasol i staff. Pan fydd Myfyriwr sy'n gweithredu fel cyflogai yn creu eiddo deallusol, bydd y Polisi Eiddo Deallusol Staff yn berthnasol.

# 2 Egwyddorion Cyffredinol

## Dyma'r egwyddorion cyffredinol wrth wraidd y polisi hwn:

2.1 Y Myfyriwr biau Eiddo Deallusol a grëir gan y myfyriwr hwnnw, ac eithrio pryd mae amgylchiadau eithriadol fel y nodir yn y Polisi hwn, er enghraifft:

- mae'r Myfyriwr wedi cytuno'n benodol fel arall yn ysgrifenedig gyda'r brifysgol;
- mae gan y Myfyriwr ysgoloriaeth ymchwil a noddir ac mae gan y noddwr hawl ar yr eiddo deallusol sy'n deillio o hynny fel rhan o delerau'r ysgoloriaeth ymchwil;
- mae'r Myfyriwr yn cymryd rhan mewn rhaglen ymchwil lle bydd unrhyw eiddo deallusol sy'n deillio o hynny yn eiddo i noddwr yr ymchwil;
- mae'r Myfyriwr yn creu eiddo deallusol drwy ddefnyddio cyfleusterau a/neu adnoddau'r brifysgol, a chytunwyd gan y brifysgol y gellir defnyddio'r cyfleusterau a'r adnoddau hynny ac mai'r brifysgol biau'r eiddo deallusol sy'n deillio o hynny;
- mae'r Myfyriwr yn cynhyrchu eiddo deallusol a grëir ar y cyd ag aelod cyflogedig o staff y brifysgol sy'n gweithio yn rhan o'i gyflogaeth.
- Rhestr enghreifftiol yw'r uchod a bydd angen archwilio amgylchiadau penodol fesul achos unigol.

2.2 Er mwyn osgoi amheuaeth, y Myfyriwr biau unrhyw eiddo deallusol a grëir ganddo ef/hi yn bersonol ("Eiddo Deallusol Myfyriwr") a heb ddefnyddio cyfleusterau a/neu adnoddau'r Brifysgol.

2.3 Os mai'r Brifysgol biau'r eiddo deallusol a grëir gan Fyfyriwr, mae gan y Myfyriwr a'r Brifysgol yr hawl i gyfran deg o unrhyw fudd masnachol sydd wedi cronni.

2.4 Ym mhob achos, bydd perchnogaeth o Eiddo Deallusol a grëir gan Fyfyriwr yn amodol ar hawliau trydydd parti sy'n noddi'r gweithgarwch y deillia'r Eiddo Deallusol ohono.

2.5 Gall y Brifysgol ddefnyddio elfen berthnasol unrhyw weithiau a gynhyrchir gan Fyfyrwyr a/neu atgynyrchiadau addas o'r gweithiau hyn, ar gyfer gweithgareddau addysg a hyrwyddol a/neu i ddibenion dangos y gweithiau hyn i gyrff statudol proffesiynol er mwyn dilysu rhaglenni gradd priodol. Mae'r Drindod Dewi Sant yn cydnabod hawliau moesol awduron mewn perthynas â'u gweithiau hawlfraint. Wrth arddangos a benthyca gweithiau Myfyrwyr bydd y Drindod Dewi Sant yn rhoi ystyriaeth i hawliau moesol

2.6 Myfyrwyr a bydd yn rhoi gwybod pwy yw'r awdur fel y bo'n briodol. Os nad yw hyn yn ymarferol, yna ceisir hepgor yr hawliau moesol hyn.

2.7 Gwybodaeth gyfrinachol. Ceidw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yr hawl i osod rhwymedigaethau cyfrinachedd ar Fyfyrwyr sy'n creu, neu'n gweithio ar, ddyfeisiau patentadwy. Y prif reswm am hyn yw y gall datgelu'r ddyfais mewn rhyw fodd ddinistrio ei newydd-deb ac felly ni fydd y ddyfais yn batentadwy. Fel arfer mae'r rhwymedigaeth i gadw cyfrinachedd yn para tan i gais am batent gael ei ffeilio. Gall cytundebau cyfrinachedd fod yn berthnasol hefyd i brosiectau a noddir, lle gall ffurfio rhan o'r cytundeb rhwng y Myfyriwr a'r noddwr. agreement between the Student and the sponsor.

# 3 Myfyrwyr Israddedig a Myfyrwyr Ôl-raddedig ar gyrsiau a addysgir (nid ymchwil)

3.1 Safbwynt arferol y Brifysgol yw, os mai Myfyriwr israddedig neu ôl-raddedig a addysgir sydd wedi datblygu Eiddo Deallusol, yna'r Myfyriwr biau'r Eiddo Deallusol.

Fodd bynnag, mae rhai eithriadau i'r ddarpariaeth hon:

- Myfyrwyr sy'n gweithio ar brosiect a noddir, neu brosiect "byw" a gytunwyd gyda sefydliad allanol, fel rhan o'u gwaith cwrs. Mewn achos o'r fath, mae'n bosibl mai'r noddwr biau unrhyw Eiddo Deallusol sy'n deillio o hyn. Yn yr achos hwn, gofynnir i'r Myfyriwr o'r cychwyn cyntaf drosglwyddo Hawliau Eiddo Deallusol i'r Brifysgol er mwyn llunio contract gyda'r noddwr.
- Myfyrwyr Noddedig. Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr a noddir gan sefydliadau eraill yn eu hastudiaethau yn canfod mai'r corff sy'n eu noddi piau unrhyw Eiddo Deallusol sy'n deillio o hynny. Cynghorir Myfyrwyr i wirio telerau ac amodau eu nawdd.
- Mae'n ofynnol i fyfyrwyr sy'n gwneud defnydd helaeth o adnoddau'r Brifysgol i ddatblygu Eiddo Deallusol ddod i gytundeb gyda'r Brifysgol ynghylch perchnogaeth Hawliau Eiddo Deallusol.

3.2 Penderfynir a wnaed defnydd sylweddol o adnoddau'r Brifysgol ar sail ffeithiau ac amgylchiadau'r gwaith a arweiniodd at yr Eiddo Deallusol. Rhoddir ystyriaeth i nifer o ffactorau yn cynnwys yr adnoddau eu hunain a'r graddau maent yn cael eu defnyddio y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylid yn ystod yr astudiaeth.

Gallai'r adnoddau a gymerir i ystyriaeth gynnwys offer technegol, amser staff, cyfleusterau gweithdy, meddalwedd neu Eiddo Deallusol y mae'r Brifysgol yn meddu arno eisoes.

3.3 Gall Myfyrwyr israddedig neu Fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir, y bernir mai nhw sydd biau eu Heiddo Deallusol ac sy'n dynodi cyfleoedd masnacheiddio posibl, ddewis trosglwyddo'r Eiddo Deallusol hwnnw i'r Brifysgol, er mwyn gallu archwilio a datblygu'i botensial masnachol. Os cytuna'r brifysgol i'r trosglwyddo hwn, yna caiff y Myfyriwr ei drin yn yr un modd ag aelod o'r staff wrth rannu cyllid (gweler 7.1). Os na fydd y Brifysgol yn penderfynu elwa ar hyn, yna ni fydd trosglwyddiad yn digwydd.

3.4 Os bydd Myfyrwyr yn ansicr a wnaed defnydd sylweddol o adnoddau'r Brifysgol, dylent ofyn cyngor eu cyfarwyddwr rhaglen yn y lle cyntaf, a all gyfeirio'r Myfyriwr at y Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch am ragor o gefnogaeth.

Bydd y penderfyniad ynghylch a wnaed defnydd sylweddol o Adnoddau'r Brifysgol yn cael ei wneud gan banel dan gadeiryddiaeth y Pro Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesi, Mentergarwch a Masnacheiddio (neu unigolyn arall a ddirprwyir gan yr Is-Ganghellor), mewn cydweithrediad â'r Deon Cyfadran a goruchwyliwr ymchwil neu academaidd y Myfyriwr, a chynrychiolwyr y Myfyrwyr.

# 4 Myfyrwyr Ôl-raddedig (seiliedig ar ymchwil)

4.1 Mae Myfyriwr Ôl-raddedig (Myfyriwr Ôl-radd) sy'n gyflogai i'r Brifysgol yn atebol i bolisi Eiddo Deallusol y Staff.

4.2 Rhaid i Fyfyriwr ôl-raddedig sy'n ymgymryd â gweithgareddau ymchwil ddod i gytundeb ysgrifenedig sy'n cadarnhau'r berchnogaeth a'r defnydd o Eiddo Deallusol a grëir yn y Gweithgareddau Ymchwil. Bydd y cytundeb yn deg ac yn rhesymol gan roi ystyriaeth i'r holl ffactorau perthnasol, yn cynnwys a yw'r Myfyriwr Ôl-radd yn dod â chefndir Eiddo Deallusol sylweddol i'r prosiect, neu a yw'n ariannu'i hun, ond heb fod yn gyfyngedig i'r ffactorau hynny. Yn niffyg cytundeb o'r fath, y Brifysgol fydd piau'r Eiddo Deallusol fel y gall gydymffurfio ag unrhyw oblygiadau cyllido ymchwil.

4.3 Ym mhob achos lle ariennir y Gweithgareddau Ymchwil gan drydydd parti, rhaid i'r Myfyriwr Ôl-radd dderbyn darpariaethau'r cytundeb ymchwil rhwng y Brifysgol a'r trydydd parti yn ymwneud ag Eiddo Deallusol a chyfrinachedd. Bydd Prif Ymchwilydd prosiect yn hysbysu'r Myfyriwr sy'n gweithio ar y prosiect hwnnw o unrhyw ofynion a osodir gan y noddwr ynghylch perchnogaeth o Eiddo Deallusol.

4.4 Ni ddylai'r Myfyriwr Ôl-radd ddatgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol na gwybodaeth sensitif yn fasnachol am y Brifysgol na thrydydd parti a bernir ei fod wedi cydsynio i unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd a osodir gan drydydd parti perthnasol.

4.5 Rhaid i'r Myfyriwr Ôl-radd weithredu mewn ffordd sy'n gwbl gydnaws â rhwymedigaethau'r Brifysgol mewn perthynas â'r Gweithgareddau Ymchwil, rhaid iddo gydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cytundebol, a bernir ei fod wedi cydsynio â'r holl rwymedigaethau a osodwyd arno ef/hi gan y cytundeb ymchwil, yn cynnwys y rhai yn ymwneud â chyfrinachedd a pherchnogaeth Eiddo Deallusol.

4.6 Bydd Myfyriwr Ôl-radd yn llofnodi'r holl ddogfennau ac yn cymryd camau rhesymol eraill sy'n ofynnol i gadarnhau perchnogaeth y Brifysgol neu drydydd parti o'r Eiddo Deallusol, a hynny ar draul y Brifysgol neu drydydd parti.

4.7 Bydd yn ofynnol i fyfyriwr Ôl-radd sy'n cofrestru ar raglen radd ôl-raddedig gwblhau a llofnodi ffurflen lle mae ef/hi'n:

- Cydnabod a derbyn darpariaethau'r Polisi Eiddo Deallusol Myfyrwyr.
- Cytuno i ddatgelu unrhyw waith dyfeisio sydd ar waith neu Eiddo Deallusol arall sy'n berthnasol i'r Gweithgareddau Ymchwil y bydd ef/hi'n eu gwneud, gan gynnwys datgelu unrhyw drydydd parti a allai fod â hawl i'r Eiddo Deallusol hwnnw.
- Derbyn a chytuno i gydymffurfio â'r amodau cyfrinachedd a osodir gan noddwr trydydd parti i'r Gweithgareddau Ymchwil y bydd y Myfyriwr yn ymwneud â nhw, ac yn ymrwymo i beidio â datgelu gwybodaeth y Brifysgol sy'n gyfrinachol neu'n sensitif yn fasnachol.
- Cytuno i ddatgelu Eiddo Deallusol y mae ef/hi'n ei greu yn y Gweithgareddau Ymchwil.
- Cytuno i wneud ymholiadau perthnasol i ofynion noddwr y prosiect ymchwil y bydd ef/hi yn cymryd rhan ynddi neu'r Brifysgol.
- Cytuno i lunio cytundeb ysgrifenedig gyda'r Brifysgol ynglŷn â pherchnogaeth a defnydd o'r Eiddo Deallusol y bydd ef neu hi'n ei greu yn y Gweithgareddau Ymchwil.

4.8 Cyfrifoldeb pob Prif Ymchwilydd yw sicrhau bod cytundeb Eiddo Deallusol yn cael ei lunio rhwng y Myfyriwr Ôl-radd a'r Brifysgol.

# 5 Dysgu Seiliedig ar Waith

5.1 Y cwmni fydd biau Eiddo Deallusol a grëir gan Fyfyriwr yn rhan o leoliad neu brofiad dysgu seiliedig ar waith, oni chytunir yn wahanol rhwng y Myfyriwr a'r cwmni neu oni reolir hynny gan noddwyr, os yw'n cael ei ariannu gan drydydd parti.

# 6 Perchnogaeth Hawlfraint

6.1 Y rheol gyffredinol yw mai Myfyriwr fydd piau'r hawlfraint o ran deunyddiau, megis traethawd ymchwil neu ddeunyddiau eraill ar gyfer gwaith cwrs y mae ef/hi wedi'u hysgrifennu. Ceidw'r Brifysgol yr hawl (1) i ddefnyddio'r deunyddiau i'w dibenion mewnol ei hun o ganfod llên-ladrad neu dwyllo, a (2) i reoli'r deunydd ar gyfryngau electronig ar wefannau'r Brifysgol.

6.2 Gall y Brifysgol ddefnyddio'r deunyddiau, ac eithrio'r hyn a nodir yng Nghymal 3.1, gyda chytundeb y Myfyriwr.

6.3 Os bydd Myfyriwr yn cynhyrchu deunydd ysgrifenedig (yn cynnwys traethawd ymchwil) mewn prosiect a noddir gan drydydd parti neu os comisiynwyd y deunydd yn benodol gan y Brifysgol, y Brifysgol neu'r trydydd parti fydd biau'r hawlfraint onid oes cytundeb i'r gwrthwyneb. Golyga hyn:

Y bydd gofynion cyfrinachedd, cyfyngiadau ar yr hawl i gyhoeddi, a chyfyngiadau ar yr hawl i weld y traethawd ymchwil neu ddogfennau eraill yn cael eu penderfynu yn unol ag unrhyw ymrwymiadau cytundebol rhwng y Brifysgol a thrydydd parti.

6.4 Os mai'r Brifysgol neu drydydd parti biau'r hawlfraint mewn deunyddiau a gynhyrchwyd gan Fyfyriwr yn unol â thelerau'r Polisi hwn, mae'r Myfyriwr yn ildio'r hawl i unrhyw hawliau moesol yn y gwaith.

6.5 Bydd Myfyriwr, ar draul y Brifysgol, yn llofnodi'r holl ddogfennau ac yn cymryd camau rhesymol eraill sy'n ofynnol i gadarnhau perchnogaeth y Brifysgol neu drydydd parti o'r Eiddo Deallusol pan fo angen perchnogaeth o'r fath yn unol â thelerau'r Polisi hwn.

6.6 Er ei bod yn bosibl mai Myfyriwr biau'r hawlfraint mewn deunyddiau y mae ef/hi wedi'u cynhyrchu, rhaid i'r Myfyriwr gydymffurfio â rheoliadau'r Brifysgol o ran llên-ladrad ac ni fydd yn cynorthwyo eraill, yn ymwybodol neu'n fwriadol, i lên-ladrata'r gwaith trwy ganiatáu i eraill ddefnyddio'i ddeunyddiau.

# 7 Rhannu Cyllid

7.1 Os bydd y Brifysgol yn dewis masnacheiddio eiddo deallusol a grëir gan Fyfyriwr heblaw ar sail hyd braich, er enghraifft, os yw'r eiddo deallusol yn cael ei neilltuo i gwmni deillio (sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol) am lai na'r gwerth y byddid wedi'i gael mewn trafodiad tebyg gyda thrydydd parti digyswllt, yna i ddibenion cyfrifo cyfran cyllid y cyflogai, bernir mai incwm y Brifysgol fydd y gwerth uchaf y byddid wedi'i gael mewn trafodiad gyda thrydydd parti digyswllt. Yn ogystal cyfrifir y lefel incwm tybiedig hwn gan gyfeirio at y gwir incwm a geir wrth i'r endid sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol fasnacheiddio'r eiddo deallusol.

| Lefel incwm y patent/syniad | Dyfeisiwr(wyr)/Crëwr(wyr) | Cronfa'r Brifysgol | Adran y DyfeisiwrFirst |
|---|---|---|---|
| £2000 cyntaf | 85% | 0% | 15% |
| Dros £2000 a than £25,000 | 50% | 25% | 25% |
| Dros £25,000 a than £50,000 | 40% | 30% | 30% |
| Dros £50,000 o freindaliadau patent | 35% | 35% | 30% |

7.2 Fformiwla Rhannu Cyllid.
Bydd incwm net (fel y diffinnir yn 7.3 isod) o fasnacheiddio eiddo deallusol sy'n eiddo i'r Brifysgol yn cael ei ddosbarthu fel y nodir yn y tabl isod ac yn amodol ar Gytundeb Rhannu Cyllid i'w lofnodi gan bob parti, oni chytunir yn wahanol gan bob parti, cyn unrhyw fasnacheiddio.

7.3 Yr incwm net fydd y cyllid gros a dderbynnir gan y Brifysgol wrth fasnacheiddio eiddo deallusol llai'r treuliau ar y Brifysgol a'i his-gwmnïau yn gysylltiedig â masnacheiddio eiddo deallusol.

7.4 Bydd y treuliau a dynnir o'r cyllid gros i gyrraedd yr incwm net yn cynnwys ffioedd a threuliau yn sgil cael a chynnal amddiffyniad eiddo deallusol, gan gynnwys ffioedd cyfreithiol a ffioedd asiantau patent. Hefyd tynnir taliadau a wneir i gydberchnogion neu drydydd partïon eraill (megis noddwyr gwreiddiol yr ymchwil a arweiniodd at greu'r eiddo deallusol), ffioedd ymgynghorwyr perthnasol, a threuliau yn sgil marchnata a masnacheiddio'r eiddo deallusol.

7.5 Bydd y crëwr yn darparu cymorth yn ôl yr angen i fasnacheiddio'r ddyfais yn effeithiol, yn cynnwys cymorth priodol a rhesymol i drwyddedai unrhyw ddyfais, neu fel y nodir mewn unrhyw Gytundeb Rhannu Cyllid.

7.6 Os oes mwy nag un gweithiwr neu Fyfyriwr wedi creu'r eiddo deallusol, neu sydd wedi cyfrannu fel arall at greu, datblygu neu lunio'r ddyfais, bydd dosbarthu'r incwm rhyngddynt neu ymhlith eu hunain yn fater i'w benderfynu ganddyn nhw yn rhesymol ac yn ddidwyll. Os methir â chytuno, dylid cyfeirio'r mater at banel, a fydd yn ceisio barn annibynnol arbenigwr priodol, a gadeirir gan y Dirprwy Is-Ganghellor gan gymryd i ystyriaeth gyfraniad pob unigolyn at y ddyfais.

7.7 Bydd y Brifysgol yn gyfrifol am gyd-drafod yn rhesymol ac yn ddidwyll gyda thrydydd partïon ynghylch faint o freindaliadau neu gyllid arall y bydd y trydydd parti'n ei dderbyn yn sgil elwa ar yr eiddo deallusol.

7.8 Yr unig rwymedigaeth a osodir gan y darpariaethau hyn i rannu cyllid yw i rannu incwm net gyda'r crëwr unwaith y bydd y Brifysgol wedi'i dderbyn. Nid oes rhwymedigaeth benodol nac ymhlyg ar y Brifysgol i sicrhau derbyn y cyllid mwyaf am yr eiddo deallusol. Gall y Brifysgol, trwy ei disgresiwn ei hun, yn rhesymol ac yn ddidwyll, gymryd unrhyw gam sy'n dileu neu'n lleihau faint o gyllid a dderbynnir o eiddo deallusol sy'n eiddo i'r Brifysgol.

7.9 Yn achos marwolaeth unigolyn oedd i fod i dderbyn cyfran o gyllid, bydd y cyllid hwnnw'n daladwy i ystâd yr ymadawedig.

# 8 Ymwadiadau

8.1 Mae'n bosibl y bydd y Brifysgol yn cyhoeddi ymwadiadau ynghylch perchnogaeth o Eiddo Deallusol mewn achosion priodol neu'n darparu trwydded neu'n trosglwyddo'r Eiddo Deallusol i'r Myfyriwr neu'r Myfyrwyr a'i creodd.

# 9 Anghydfodau ac apeliadau

9.1 Os bydd anghydfod ynghylch y dehongliad o'r polisi hwn bydd gan y Myfyriwr yr hawl i apelio. Bydd y broses apelio'n cynnwys:

**a.** hysbysiad ysgrifenedig gan y Myfyriwr i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol yn amlinellu ffeithiau'r anghydfod gan roi copïau i'r partïon eraill yn yr anghydfod.

**b.** y cyfle i'r partïon eraill gyflwyno sylwadau am y cyflwyniad

**c.** ystyriaeth o'r apêl gan y Pwyllgor Eiddo Deallusol gan gymryd pob cyflwyniad i ystyriaeth.

9.2 Bydd y broses hon yn digwydd dim ond os na fu'n bosibl datrys yr anghydfod trwy drafodaeth gyda'r partïon dan sylw.

# 10 Gweithredu

10.1 Bydd gan y Pro Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesi, Mentergarwch a Masnacheiddio awdurdod a disgresiwn eang, o fewn cyfyngiadau (1) Siarter y Brifysgol ac unrhyw Reoliadau, Ordinhadau neu ddarpariaethau eraill a wnaed gan y Cyngor, (2) y Polisi Eiddo Deallusol, a (3) unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd iddo gan neu ar ran yr Is-Ganghellor i ddilyn prosesau gweinyddol sy'n angenrheidiol i weithredu'r Polisi hwn yn effeithiol.

10.2 At ddibenion y polisi hwn cyfeirir holl benderfyniadau'r Brifysgol ynghylch perchnogaeth, trosglwyddo a buddsoddi Eiddo Deallusol i'r Pwyllgor Eiddo Deallusol a fydd yn sicrhau arbenigedd a chynrychiolaeth briodol.

10.3 Mae'r Pwyllgor Eiddo Deallusol yn adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil.

10.4 Yn unol â'r nod o annog a symbylu masnacheiddio ac i sicrhau bod Myfyrwyr yn rhannu'r buddiannau, bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo cynnwys y polisi i'r holl Fyfyrwyr, trwy:

- Ddarparu canllaw hawdd ei ddefnyddio i Eiddo Deallusol
- Ei ledaenu gan staff yr Ysgol
- Gweithdai codi ymwybyddiaeth o Eiddo Deallusol i Fyfyrwyr a Staff
- Cwestiynau cyffredin a darparu gwybodaeth ar-lein

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

